GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU
SWYDD-DDISGRIFIAD

Adran	**Diogelwch Cymunedol a Phartneriaethau**
Swydd	**Hyfforddwr Cadetiaid Tân (Staff Gweithredol neu Gorfforaethol)**
Rhif y Swydd	**Ddim yn berthnasol**
Gradd	**Ddim yn berthnasol**
Lleoliad	**Unedau Cadetiaid Tân Amrywiol**
Yn gyfrifol i'r	**Rheolwr Uned/ Rheolwr/wyr Cadetiaid Tân**
Yn gyfrifol am	**Gadetiaid Tân**
Cyfrifoldeb dros Adnoddau Corfforol	**Dim**
Cyfrifoldeb dros Adnoddau Ariannol	**Dim**

Cyfeiria'r swydd-ddisgrifiad hwn at brif bwrpas a chyfrifoldebau'r swydd. Nid yw hyn o reidrwydd yn nodi mewn manylder yr holl dasgau sydd eu hangen i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Adolygir y swydd-ddisgrifiad hwn fel bo'r gofyn i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion busnes y Gwasanaeth

PRIF BWRPAS Y SWYDD
Hwyluso a chyflwyno'r Cynllun Cadetiaid Tân ar draws GTADC a chefnogi a mentora pobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u datblygiad personol i'w galluogi i ddod yn fodelau rôl effeithiol yn y gymuned a symud ymlaen yn gadarnhaol i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant pellach.

DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

1. Cynorthwyo i gyflawni Gwobr y Cadetiaid Tân / BTEC Lefel 2 mewn Gwasanaethau Tân ac Achub yn y Gymuned fel rhan o Gynllun Cadetiaid Tân GTADC

2. Defnyddio'r cynlluniau sesiwn a'r adnoddau a ddarperir i gyflawni'r Cynllun Cadetiaid Tân, gan sicrhau bod amgylchedd dysgu cadarnhaol yn cael ei greu ar gyfer pawb sy'n cymryd rhan

3. Arwain hyfforddiant mewn ymarferion sgiliau ymarferol gweithredol i bobl ifanc ac elfennau datblygu Cadetiaid Tân yn ôl y gofyn **(Staff Gweithredol yn Unig)**

4. Sicrhau bod cymhwysedd gweithredol yn cael ei gynnal er mwyn darparu'n ddiogel hyfforddiant a datblygiad ymarfer ar y tir ar gyfer pobl ifanc, a sicrhau bod cynrychiolaeth ddigonol sef 1:5 yn cael ei chynnal o ran y nifer o hyfforddwyr **(Staff Gweithredol yn Unig)**

5. Cefnogi a mentora pobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u datblygiad personol i'w galluogi i ddod yn batrymau ymddygiad effeithiol yn y gymuned a symud ymlaen gydag agwedd gadarnhaol i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant pellach

6. Cynorthwyo gyda datblygu sgiliau personol fel hyder, cyfathrebu, gweithio mewn tîm, cymhelliant, hunan-barch a hunanddisgyblaeth

7. Cymryd rhan mewn mentrau lleol a chenedlaethol a helpu darparu gweithredu cymdeithasol a digwyddiadau elusennol yn ôl y gofyn

8. Cynnal gwybodaeth a chydymffurfiaeth â gofynion amddiffyn plant, diogelu, GDPR a diogelwch

9. Helpu i ddiweddaru a chynnal data Cadetiaid Tân megis cofnodion presenoldeb electronig yn ôl y gofyn

10. I fod yn ebatrwm Ymddygiad cadarnhaol i'r Bobl Ifanc bob adeg

11. I gynnal cymwyseddau craidd personol a chynorthwyo yn natblygiad cymwyseddau craidd personol eraill lle bo'n briodol

12. Ymgymryd ag unrhyw ddigwyddiadau neu gyrsiau hyfforddi sy'n berthnasol i rôl Hyfforddwr y Cadetiaid Tân

GOFYNION GWASANAETH SAFONOL

- I fynychu cyrsiau hyfforddi mewnol ac allanol yn ôl yr angen

- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesurol â'r raddfa a'r swydd

- I gydweithredu'n llawn ag unrhyw gynllun neu gynllun peilot o'r un math, a gyflwynir o fewn yr Adran neu ar draws y Gwasanaeth.

- I weithredu egwyddorion Polisïau Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth a Chynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth wrth gyflawni'r dyletswyddau uchod.

- I ufuddhau i Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch/Polisïau a Gweithdrefnau Gwasanaeth Perthnasol a chymryd gofal rhesymol am eich iechyd a

diogelwch eich hun yn ogystal â rhai personau eraill a all gael eu heffeithio'n andwyol gan eich gweithredoedd/anweithredoedd.

GWERTHOEDD SEFYDLIADOL

Wrth berfformio'r rôl uchod, mae'n ofynnol i bob gweithiwr y Gwasanaeth ddilyn a hyrwyddo Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth i fod, ar bob adeg:

- Yn broffesiynol
- Yn ofalgar
- Yn barchus
- Yn ymroddgar
- Yn ddibynadwy
- Yn rymus
- Yn ddisgybledig
- Yn hydwyth

Bydd angen Archwiliad Estynedig gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) pe bai eich cais yn un llwyddiannus. Ni fydd meddu ar gofnod troseddol o reidrwydd yn rhwystr i chi dderbyn swydd.